| | | |
|---|---|---|
| **LLINYN:** | Diogelwch | Hyd y Wers: 60 munud |
| **CYFNOD ALLWEDDOL** | CA2 Uchaf | |
| **GWERS** | Byddwch yn Seiber Ddiogel | |

## NOD
- Codi ymwybyddiaeth o beth yw bwlio seiber

## FFRAMWAITH ABCh DEILLIANNAU DYSGU
- Llunio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus. S (DM)
- Gwrando'n astud, cwestiynu ac ymateb i eraill. S (DC)
- Dangos empathi gyda phrofiadau a theimladau pobl eraill. S (GGE)
- Defnyddio TGCh mewn modd diogel gyda chymorth ac arweiniad. S (DTGCh)
- Rheoli gwahanol emosiynau a datblygu strategaethau i ymdrin â bwlio/bwlio seiber. S (GGE)
- Gofyn am gymorth a chyngor personol. S (GGE)
- Ymwrthod â phwysau ac ymddygiad diangen gan gyfoedion. S (GGE)
- Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill. R (AC)
- Teimlo'n bositif amdanynt eu hunain a bod yn sensitif i deimladau pobl eraill. Y (ILE)
- Deall ystod eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain a rhai pobl eraill. Y (ILE)

## LLYTHRENNEDD YN Y CWRICWLWM
Mae'r wers hon yn cynnwys yr agweddau canlynol o'r fframwaith rhifedd/llythrennedd:
- Siarad Ll(Ll)s
- Gwrando Ll(Ll)g
- Cydweithio a thrafod Ll(Ll)c&th
- Strategaethau darllen Ll(D)sd
- Iaith Ll(Y)i

## AMCANION Y WERS
- Archwilio defnydd cadarnhaol o gyfathrebu digidol
- Deall beth yw bwlio seiber
- Gwybod sut i ddelio â bwlio seiber

## GEIRIAU ALLWEDDOL

bwlio, bwlio seiber, cyfathrebu digidol, canlyniadau

## ADNODDAU

- Geiriau allweddol
- PowerPoint Byddwch yn Seiber Ddiogel
- Cerdyn diffiniad bwlio
- Cerdyn diffiniad bwlio seiber
- Clip DVD o Stori Megan
- Cardiau chwe math o fwlio: corfforol; emosiynol; gwaharddiad; geiriol; ystumiau; bwlio seiber
- 12 cerdyn Stori Megan
- 6 cerdyn ffoto teimladau (lluniau llonydd o'r ffilm)
- 6 dalen fawr o bapur a phennau lliw
- Cardiau ffoto cymeriadau
- Cerdyn strategaeth help llaw

## GWEITHGAREDDAU

### RHAGARWEINIAD

- Sicrhewch fod y cysylltiad gyda'r wers flaenorol wedi ei egluro
- Cytunwch ar y Rheolau Aur
- Amlinellu'n glir gytundeb yr ystafell ddosbarth a chyfrinachedd
- Eglurwch - arddangosoch yr amcanion dysgu a'r geiriau allweddol

### PRIF WEITHGAREDDAU

- Y dosbarth i ystyried beth yw bwlio a bwlio seiber a beth yw'r gwahaniaethau?
- Arddangos diffiniadau bwlio a bwlio seiber
- Dangos clip DVD Stori Megan i ysgogi trafodaeth bellach ynglŷn â bwlio seiber
- Cyflwyno'r gwahanol fathau o fwlio: corfforol; emosiynol; gwaharddiad; geiriol; ystumiau; bwlio seiber
- Mewn grwpiau, y disgyblion i gyfateb cardiau Stori Megan i'r 6 math o fwlio a arddangosir
- Gweithgaredd grŵp, Carwsél Teimladau er mwyn dangos y cysylltiad rhwng bwlio/bwlio seiber a chynnwrf emosiynol
- Trafodaeth dosbarth cyfan ynglŷn â strategaethau i ddelio bwlio seiber fel dioddefwr neu fel gwyliwr

### ADOLYGU/DOSBARTH CYFAN

- Gan ddefnyddio'r templed help llaw, anogwch y disgyblion i ddysgu a datblygu'r strategaethau cadarnhaol i atal bwlio seiber
- Aseswch ddealltwriaeth y disgyblion o amcanion allweddol drwy gwestiynu
- Adolygu rheolau SMART

### GWEITHGAREDDAU DILYNOL ATHRAWON

Gweler gwefan www.schoolbeat.org am weithgareddau dilynol ac adnoddau athrawon.